

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw
a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw, am 7 yh nos Fercher y 17^{fed} Ebrill 2019

Preseanol: *J H Owens (Cad), R F Owen, M T Smithurst, C Davies, A Jones, Cyng Bryan Owen, Cyng P Rogers*

Ymddiheuriadau: *R B Owen, K Woods, C G Topps, W Hughes, E Evans, S Austin, A Hughes*

1. Mr a Mrs Harwood, Gwely a Brecwast Prince Llewelyn

Mae Mr a Mrs Harwood yn dymuno prynu'r tir sydd o flaen y Prince Llewelyn gan Gyngor Sir Ynys Môn i greu safle parcio i ddefnyddwyr y busnes. Gan fod y tir yn briffordd hanesyddol bydd angen gorchymyn atal er mwyn caniatau'r gwerthiant. Mae'r Cynor Sir wedi gofyn am gymeradwyaeth gan y Cyngor Cymunedar gyfer y gorchymyn atal.

Mr a Mrs Harwood yn egluro y byddai'r safle parcio o gymorth i scrhau dyfodol y busnes a fyddai yn ei dro yn cynorthwyo economi'r pentref drwy ddod â chwsmeriaid at fusnesau eraill yn Aberffraw megis y dafarn a'r siop. Maent yn pryderu fod cwsmeriaid yn mynd at fusnesau eraill oherwydd y ddiffyg llefydd parcio.

MTS yn cynnig fod y Cyngor Cymuned yn cymeradwyo'r gorchymun terfynu priffordd gan ddatgan fod y busnes angen llecynnau parcio yn arbennig felly o ganlyniad i'r gwaharddiadau parcio a gyflwynwyd yn ddiweddar yn y pentref. Pryderon hefyd mewn perthynas â diogelwch yn dilyn adroddiadau fod rhai unigolion yn gyrru ar gyflymder ar draws y safle. Eilwyd y cynnig gan CD a awgrymodd y dylid ystyried gosod panel gwybodaeth i egluro hanes y safle fel priffordd. RFO yn datgan ei wrthwynebiad i'r cynnig ac yn atgoffa'r aelodau fod y Cyngor Cymuned wedi gwrthod cais tebyg yn y gorffennol. Diolchodd y Cadeirydd i Mr a Mrs Harwood am fynychu a gadawodd y ddau y cyfarfod. Cytunwyd fod y penderfyniad yn un pwysig gan na ellir wi wyrdroi yn y dyfodol. Gan nad oedd ond 5 aelod yn bresennol, awgrymwyd y dylid gohirio'r penderfyniad dan y cyfarfod nesaf i'w gynnal ym mis Mai yn y gobaith y bydd rhagor o aelodau'n bresennol. Clerc i hysbysu Mr & Mrs Harwood.

2. Cofnodion

Gan nad oedd ond un aelod yn bresennol a fu'n bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20/03/2019 cytunwyd y dylid gohirio derbyn y cofnodion tan y cyfarfod nesaf.

3. Materion yn codi o gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 20/03/2019

2.1 Gwefan – Clerc yn adrodd for Mr Stallwood wedi cytuno i gynorthwyo'r Cyngor Cymuned i ddiweddarau'r wefan er mwyn cwrdd â'r gofynion statudol. Bydd y wefan bresennol yn parhau yn weithredol dros dro i adael amser i ystyried opsiynnau eraill.

2.2 Croesffordd Dothan– arwyddbost newydd– Clerc i wneud ymholiadau.

2.3 Gor-dyfiant ar y ffin rhwng y llwybr ym Maes Llywelyn a'r Cae chwarae- Amcanbris o £200.00 wedi ei dderbyn gan Liam Jones i dorri a chasglu'r gwair a'r mieri a'i adael yn y twmpath torriadau glaswellt ar y safle. Cytunwyd gan bawb y dylid gofyn i Mr Liam Jones fynd ymlaen â'r gwaith. KW ddim yn bresennol i adrodd yn ôl.

2.4 Aberffraw Mewn Blodau– CD yn adrodd nad yn Mon CF yn tyfu blodau eleni. JHO yn adrodd ei fod wedi trwsio rhai o'r cafnau. Deellir f'pd un o drigolion y pentref wedi plannu blodau mew cafn gerllaw'r eglwys. MTS yn gwirfoddoli i blannu blodau yn y cafn wrth y Swyddfa Bost. Gobeithir y bydd y gwaith yn annog rhagor i ystyried gwirfoddoli.

2.5 Swydd y Clerc – Clerc yn adrodd nad oedd wedi derbyn unrhyw ymholiadau ynglyn â'r swydd. Swydd i'w hail-hysbysu. Clerc i wneud ymholiadau gyda Chyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas ag anfon ebost drwy'r sustem fewnol i hysbysebu'r swydd i staff y cyngor. Gofynwyd i'r holl aelodau wneud ymholiadau gydag unrhyw un a all fod â diddordeb. Clerc presennol i aros yn y swydd hyd at ddiwedd Mehefin 2019.

2.6 Cae chwarae– Torri mieri a changhennau yn y cae chwarae. Cytunwyd y dylid gofyn i Mr Liam Jones gwblhau'r gwaith.

2.7 Hysbysfwrdd – JHO yn adrodd ei fod wedi canfod hysbysfwrdd o faint i ddangos 8 tudalen A4am bris o £499.00 + TAW. Cytunod bawb y dylai JHO archebu'r hysbysfwrdd.

2.8. Prynu tir y fynwent – Cadarnhad wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Ynys Môn fod y pryniant yn mynd yn ei flaen a'i fod ar hyn o bryd yn nwylo'r cyfreithwyr.

4. Ceisiadau cynllunio

Dim wedi eu derbyn.

5. Gohebiaeth

5.1 Cyngor Sir Ynys Môn– Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – Cofnodion y cyfarfod a ganhaliwyd 14/03/2019

5.2 Ystad Bodorgan – Ebst gan Mr Tim Dodd yn cadarnhau fod yr Ystad wedi cwblhau man waith trin ar y lon sy'n arwain drwy'r rhandiroedd.

6. Cyfrifon 2018-2019

I'w trafod yng nghyfarfod mis Mai.

7. Torri glaswellt y fynwent

Pryderon wedi eu codi yn ystod cyfarfod mis Mawrth ynglyn a hyd y glaswellt yn y fynwent. Oherwydd yr oedi mewn derbyn amcanbrisau cytunwyd gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd y dylid gofyn i Mr Liam Jones dorri'r glaswellt un waith yn unig. Amcanbrisau i'w gwahodd ar sail fod toriad cyntaf y tymor wedi ei wneud. Clerc yn adrodd ei bod wedi gwahodd 3 cwmni i ddarparu amcanbris a'i bod wedi derbyn ymateb gan 2 – Mr Liam Jones ac RPG Groundcare. Darlennodd y Clerc fanylion y prisiau. Cytunwyd gan bawb y dylid rhoi'r gwaith i Mr Liam Jones.

8. Unrhyw fater arall

8.1 Cae chwarae– Cafwyd adroddiadau fod nifer o ddefaid wedi crwydro ar y cae. Deallir for y perchennog wedi ei weld yn yr ardal. Cytunwyd y dylid cadw golwg ar y sefyllfa.

8.2 Codi tal am wagio bin gwyrdd – MTS yn holi ynglyn â'r posibilrwydd fod Cyngor Sir Ynys Môn am ddilyn esiampl awdurdodau lleol eraill a chyflwyno ffi am wagio biniau gwyrdd. Cyng B Owen a Cyng P Rogers yn adrodd nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd.

8.3 Bro Branwen – AJ yn adrodd fod un o drigolion Bro Branwen wedi mynegi pryderon ynglyn â'r ffaith nad yw'r cwmni torri glaswellt yn casglu'r toriadau ar ol torri'r ochrau glaswellt yn yr ardal. Cyng B Owen i wneud ymholiadau.

8.4 Lon yn arwain tuag at Y Cei – Cyng B Owen yn adrodd ei fod wedi derbyn cwynion ynglyn ag arwyneb garw y lon. Swyddog o Adran Briffyrd Cyngor Sir Ynys Môn am ymweld â'r safle.

9. Cyllid

Taliadau:

31/03/2019	M Evans	Cyflog y Clerc Ionawr – Mawrth 2019	£ 686.60
31/03/2019	JD Roberts	Yn lle siec heb ei chyflwyno	£ 75.00
31/03/2019	M Evans	Costau'r Clerc 2018-2019	£ 159.03

Derbyniadau:

11/04/2019	Melvin Rowlands	Y fynwent	£ 60.00
------------	-----------------	-----------	---------